PWYLLGOR PENODI

DYDD GWENER, 8 MEHEFIN 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Goodway(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Boyle, Mackie, Walker a/ac Weaver |

33 : YMDDIHEURIADAU (OS OES RHAI)

Doedd dim ymddiheuriadau

34 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiad o fudd ar gyfer y cyfarfod hwn.

35 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod o ran penodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Prif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor."*

36 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mai 2018 fel cofnod cywir.

37 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem fusnes ganlynol oherwydd petaent yn bresennol ac oherwydd natur y busnes, datgelid gwybodaeth iddynt a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y diffinnir isod: -

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r Awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

38 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, LANDLORD CORFFORAETHOL

Cynullwyd y pwyllgor i gyfweld â'r pedwar ymgeisydd ar y rhestr fer a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ar 25 Mai 2018 ar ôl ystyried canlyniadau'r Ganolfan Asesu. Roedd Ymgeiswyr 6, 8 a 9 ar y rhestr fer.

Fel rhan o'r broses gyfweld, rhoddodd yr ymgeiswyr gyflwyniad 10 munud a rhoddwyd cyfle i Aelodau archwilio cynnwys y cyflwyniad a gofyn cwestiynau

amdano.  Dilynwyd hyn gan gwestiynau gosod ffurfiol a dau gwestiwn gorfodol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.

Ar ddiwedd y broses gyfweld, trafododd y pwyllgor berfformiad pob ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau a'r ymatebion enghreifftiol.

Cytunodd y pwyllgor nad oedd modd penodi i swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Landlord Corfforaethol.

PENDERFYNWYD:

1. Nad oedd modd penodi Ymgeiswyr 6, 8 a 9 i rôl y Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Landlord Corfforaethol yn dilyn cwblhau'r broses ddethol;
2. Cyfarwyddo'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Aelod(au) Cabinet, i hysbysebu swydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Landlord Corfforaethol cyn gyned ag y bo hynny'n ymarferol.

39 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

O ganlyniad i beidio â phenodi Ymgeisydd 6 i swydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Landlord Corfforaethol, roedd gofyn i'r Pwyllgor Penodi ystyried a phenderfynu sefyllfa cyflogaeth Ymgeisydd 6 oherwydd nad oedd ei swydd bresennol yn rhan o'r strwythur uwch dîm rheoli newydd a gymeradwyodd y Cabinet ar 16 Tachwedd 2017. Clywodd y Pwyllgor gan y Prif Weithredwr a'r prif Swyddog AD cyn gwneud penderfyniad.

PENDERFYNWYD –

1. Cadarnhaodd y Pwyllgor Penodi fod swydd Ymgeisydd 6, fel cyflogai'r Cyngor ar hyn o bryd, mewn perygl o'i dileu, oni chanfyddir cyflogaeth addas arall.
2. Felly, cadarnhaodd y Pwyllgor Penodi bod yn rhaid cyflwyno hysbysiad diswyddo.
3. Yn unol â Pholisi Adleoli'r Cyngor, dirprwyodd y Pwyllgor Penodi awdurdod i'r Prif Weithredwr i archwilio opsiynau eraill parhaol a dros dro gyda'r Ymgeisydd yn ystod y cyfnod rhybudd, i geisio osgoi sefyllfa dileu swydd.
4. Os ceir swydd arall barhaol, naill ai trwy weithdrefnau recriwtio arferol y Cyngor, neu drwy adleoli (ar gyfer swyddi nad yw'r broses Penodi Aelodau'n berthnasol iddynt), cadarnhaodd y Pwyllgor Penodi y diddymir yr hysbysiad diswyddo.
5. Os ceir swydd arall dros dro yn y Cyngor, mae'r Pwyllgor Penodi'n cytuno gohirio'r diswyddo tan ddiwedd cyfnod y swydd dros dro.

*(Daeth y cyfarfod i ben am 13:25).*